

Rhif: WG14296



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

Cynigion i ddiwygio'r gofynion ar
gyfer cofrestru'r gweithlu addysg
yng Nghymru

Dyddiad cyhoeddi: **16 Rhagfyr 2011**

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **30 Mawrth 2012**

Cynigion i ddiwygio'r gofynion ar gyfer cofrestru'r gweithlu addysg yng Nghymru

- Trosolwg** Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn amlinellu'r cynigion ar gyfer y dyfodol o ran cofrestru'r gweithlu addysg yng Nghymru.
- Sut i ymateb** Dylai'r ffurflenni ymateb gael eu hanfon mewn e-bost at practicereviewanddevelopment@cymru.gsi.gov.uk (yn y blwch pwnc rhowch 'Ymgynghori ar gofrestru') neu eu hanfon drwy'r post at Katherine Newbrook, gan ddefnyddio'r cyfeiriad a nodir isod erbyn 30 Mawrth 2012.
- Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.
- Mae'r dogfen ymgynghori ar ffurflen ymateb ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau
- Cafodd y gofynion cyfredol ar gyfer cofrestru'r gweithlu addysg yng Nghymru eu pennu yn Neddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 www.legislation.gov.uk/ukpga/1998/30/contents ac mewn Rheoliadau dilynol.
- Cewch rhagor o wybodaeth am Raglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/about/programmeforgovernment/?lang=cy
- Manylion cysylltu** I gael rhagor o wybodaeth:
Katherine Newbrook
Rheolwr Prosiect
Yr Is-adran Gwella Dysgu a Datblygiad Proffesiynol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
- e-bost: practicereviewanddevelopment@cymru.gsi.gov.uk

Diogelu data Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni.

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhwch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Cynnwys

Rhagair Gweinidog	1
Pam rydyn ni'n adolygu'r gofynion ar gyfer cofrestru'r gweithlu addysg yng Nghymru?	2
Ble rydyn ni arni nawr?	2
Pam fod angen newid?	3
Pa newidiadau penodol rydyn ni'n eu cynnig?	4

Rhagair y Gweinidog

Ym mis Chwefror 2011, cyflwynais agenda a chynllun gweithredu ugain pwynt ar gyfer addysg yng Nghymru er mwyn codi safonau a lleihau'r bwlch cyrhaeddiad cyfredol.

Rwyf wedi'i gwneud yn glir maint fy mharch at yr holl bobl sy'n gweithio mewn ysgolion, colegau, dysgu seiliedig ar waith, a sefyllfaoedd dysgu anffurfiol sy'n rhoi cymorth uniongyrchol i'n plant a'n pobl ifanc i gyflawni i'w llawn botensial. Mae hyn yn golygu bod gennym ni, yn ein tro, gyfrifoldeb i gefnogi'r ymarferwyr sy'n gweithio yn ein system addysg, parchu'r cyfraniad a wneir ganddyn nhw a'u galluogi i gyrraedd y safonau uchaf posibl. Felly, rwy'n awyddus i gyflwyno nifer o ddiwygiadau i gefnogi'r gweithlu ehangach ac rwy'n bwriadu defnyddio darpariaethau un o'r Biliau Addysg sydd ar y gweill i ddod â'r newidiadau hynny i rym.

Un o nodweddion amlycaf llawer o broffesiynau yw bod eu haelodau'n cofrestru gyda chorff proffesiynol sy'n gosod ac yn cynnal safonau proffesiynol, a thrwy hynny'n ennyn hyder y cyhoedd. Gall corff proffesiynol effeithiol ddadansoddi gwybodaeth am y gweithlu ac unrhyw batrymau sy'n amlygu. Gall hefyd weld a oes bylchau neu gyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol. Drwy wneud hynny gall gefnogi ein hagenda ar gyfer gwella.

Felly, rwy'n awgrymu y dylai'r orfodaeth sydd ar athrawon i gofrestru gyda chorff proffesiynol gael ei ymestyn er mwyn cynnwys sector ehangach, er enghraifft addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a chynorthwywyr addysgu. Heblaw hynny, tybed a ddylai aelodau eraill o'r proffesiwn addysg sy'n ymwneud â datblygiad plant a phobl ifanc, fel gweithwyr ieuenctid a staff cymorth eraill, hefyd fedru cofrestru? Rwy'n awyddus i gael eich barn am hyn. Rwyf hefyd yn awyddus i gael eich barn am y swyddogaethau dylai corff cofrestru o'r fath eu gwneud.

Byddaf yn falch iawn o gael eich barn am ein cynigion. Fe fyddan nhw'n fy helpu wrth lunio Bil Addysg (Cymru) maes o law.

Leighton Andrews AC
Y Gweinidog dros Addysg a Sgiliau

Pam rydyn ni'n adolygu'r gofynion ar gyfer cofrestru'r gweithlu addysg yng Nghymru?

Ar hyn o bryd, mae athrawon ysgol yn cael eu cofrestru gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (CyngACC) a sefydlwyd yn gorff proffesiynol hunanreoleiddiol statudol ym mis Medi 2000 o dan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998. Ar hyn o bryd mae trwch blewyn dros 38,700 o athrawon wedi'u cofrestru yng Nghymru. Mae Cyngorau Addysgu Cyffredinol tebyg i'w cael yn Lloegr a'r Alban hefyd, ond mae rhywfaint o wahaniaeth yn y swyddogaethau sy'n cael eu gwneud gan y cyrff hyn.

Bu newidiadau sylweddol i'r system addysg yng Nghymru ers i'r CyngACC gael ei sefydlu. Mae diwygiadau fel y Cyfnod Sylfaen a Llwybrau Dysgu 14–19 yn ei gwneud yn ofynnol bod staff cymorth dysgu, athrawon ac athrawon ôl-16, hyfforddwy'r a darlithwyr yn cydweithredu i gefnogi dysgwyr yn fwy effeithiol i wella safonau a chyrhaeddiad addysgol er budd pobl Cymru.

Ar hyn o bryd, yr unig rai mae gofyn iddyn nhw gofrestru gyda chyngor proffesiynol a chael eu rheoli ganddo yw athrawon ysgol sydd â statws athro cymwysedig (SAC). Hefyd, mae gofynion tra gwahanol ar gyfer safonau proffesiynol, cymwysterau, datblygiad proffesiynol a rheoli perfformiad ar draws yr amryfal grwpiau o ymarferwyr. Drwy gofrestru'r gweithlu addysg yn fwy cyffredinol, gallai hynny fod yn sail gadarn ar gyfer meithrin mwy o gydlyniant ar draws y gweithlu yng Nghymru.

Ceir y cyfeiriad strategol ar gyfer gwaith Llywodraeth Cymru yn y Rhaglen Lywodraethu ac mae'n cynnwys ymrwymiad i adolygu CyngACC. Mae hefyd yn cynnwys cynigion i gyflwyno Bil Addysg (Cymru) a gaiff ei ddefnyddio i gyflawni newidiadau sy'n deillio o'r adolygiad o'r CyngACC.

Ble rydyn ni arni nawr?

Cyfrifoldebau'r CyngACC ar hyn o bryd yw:

- a. Cadw cofrestr o athrawon sydd â statws athro cymwysedig (SAC) yng Nghymru i sicrhau eu bod wedi'u cymhwyso'n briodol a'u bod yn addas i weithio gyda phlant.
- b. Datblygu a chynnal Cod Proffesiynol ar gyfer Athrawon sy'n gosod y safonau ymarfer a'r ymddygiad a ddisgwylir gan athrawon cofrestredig.
- c. Ymchwilio i achosion o ymddygiad proffesiynol annerbyniol, ac anghymhwystra proffesiynol difrifol, a gwrando arnyn nhw (mae ganddo bŵer i ddisgyblu a gwahardd athrawon a gafwyd yn euog o gamymddwyn neu anghymhwystra proffesiynol).
- d. Rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru a sefydliadau eraill ynghylch materion addysgu.

Mae'r cylch gwaith hwn yn gyfyngedig i staff ysgol sydd â statws athro cymwysedig (SAC) ac felly mae'n eithrio'r gweithlu addysg ehangach. Yn yr un modd, nid yw'n cynnwys cyfrifoldebau eraill a allai yrru gwelliannau 'a arweinir gan y proffesiwn' yn y safonau addysg. Er enghraifft, nid yw'r CyngACC yn pennu safonau gofynnol, safonau proffesiynol na gofynion ar gyfer datblygiad proffesiynol.

Gyda'i gylch gwaith cyfredol, mae'r CyngACC yn 'siop un stop' ar gyfer gwybodaeth am y farchnad lafur, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u gwahardd rhag addysgu am resymau diogelwch plant neu resymau eraill. Hefyd, mae yn ei gronfa ddata wybodaeth werthfawr i helpu i gynllunio'r gweithlu, a thrwy ddefnyddio'r wybodaeth honno mae modd asesu nifer yr athrawon newydd sydd i'w hyfforddi.

Pam fod angen newid?

Ym mis Chwefror 2011, cyflwynodd y Gweinidog dros Addysg a Sgiliau ei agenda mewn cynllun gweithredu ugain pwynt ar gyfer addysg yng Nghymru, i godi safonau a lleihau'r bwch cyfredol mewn cyraeddiadau.

I gyflawni'r agenda hon, mae'r Gweinidog wedi'i gwneud yn glir bod angen sicrhau bod y gweithlu addysg, o'r Cyfnod Sylfaen hyd at 14–19 oed, yn gweithio gyda'i gilydd fel un grŵp cydlynus o weithwyr proffesiynol, sy'n cydweithredu i wella safonau addysg a chyrraedd ar gyfer pobl Cymru.

Mae nifer fawr o weithwyr proffesiynol yn y gweithlu addysg. Yn 2010/11, roedd dros 21,300 o staff cymorth mewn ysgolion ac yn 2008/09 roedd trwch blewyn dros 7,000 o staff addysgu uniongyrchol yn y sector addysg bellach. Fel y mae pethau ar hyn o bryd, nid oes angen i'r rhain gofrestru. Mewn sectorau eraill, ychydig o ddata a gasglwyd, ac mae hynny felly'n ei gwneud yn anodd cynllunio'r gweithlu ar draws y sector.

Mae cryn wahaniaeth rhwng y gofynion ar gyfer safonau proffesiynol, cymwysterau, hyfforddiant cychwynnol, rheoli perfformiad a datblygiad proffesiynol parhaus yn amryfal sectorau'r gweithlu addysg. Er bod rhai o'r gwahaniaethau hyn yn dra phriodol ac yn adlewyrchu gwahaniaethau go iawn yng ngofynion y sector, mae yna wahaniaethau eraill, artiffisial, sy'n rhwystro cydweithredu a symudedd ymhlith y gweithlu ac sy'n cyfyngu ar yrfa unigolion. Heblaw hynny, nid yw'n rhoi sicrwydd i'r cyhoedd fod pob gweithiwr proffesiynol yn arddel safonau uchel o ymddygiad a chymhwysedd proffesiynol, ac felly gall danseilio parch cydradd.

Mae potensial i gorff sy'n cofrestru'r gweithlu addysg fod yn bartner allweddol yn y broses o sicrhau gwell cydlyniant. Gallai gefnogi'r agenda ar gyfer gwella a gallai fonitro, ac o bosib helpu, i godi safonau gan gynnal a meithrin hyder y cyhoedd yn y proffesiwn. Fodd bynnag, mae cwmphas a swyddogaethau'r CyngACC fel y maen nhw wedi'u cyfansoddi ar hyn o bryd yn rhy gul i gyflawni hyn yn llwyr.

Pa newidiadau penodol rydyn ni'n eu cynnig?

Rydyn ni'n bwriadu ailgyfansoddi'r CyngACC neu sefydlu corff newydd i gofrestru addysg yng Nghymru. Fan lleiaf, bydd y corff hwn yn cofrestru athrawon ysgol i sicrhau mai dim ond y rheini sydd wedi cymhwyso ac sy'n addas i weithio all addysgu yng Nghymru. Rydyn ni'n awyddus i gael eich barn am gwmpas a swyddogaethau ehangach y corff cofrestru ac rydyn ni'n cynnig y canlynol:

1. Bod gwaith y corff yn cael ei oruchwylio gan y proffesiwn. Gallai hyn gael ei gyflawni drwy gyngor proffesiynol sy'n cynnwys pobl ag arbenigedd yn y sectorau a'r swyddogaethau a gwmpesir gan y corff, neu gyfres o gynghorau sector a phob un ohonyn nhw'n gyfrifol am ran benodol o'r gweithlu.
2. Bod cwmpas y corff yn cael ei ymestyn i gynnwys y gweithlu addysg ehangach yn hytrach nag athrawon yn unig. Byddai hyn yn cynnwys, fan lleiaf, staff cymorth dysgu ysgolion, darlithwyr addysg bellach a'r gweithlu dysgu seiliedig ar waith. Drwy'r ymgynghoriad hwn rydyn ni'n ystyried a ddylid cynnwys categorïau ychwanegol o staff, ac rydyn ni'n awyddus i gael eich barn am hyn. Rydyn ni'n bwriadu cofrestru'r categorïau ychwanegol fesul cam. Drwy hynny, felly, bydd modd i ni greu darlun cyflawn o'r holl weithlu.
3. Y dylid ehangu swyddogaethau posibl y corff fel bod iddo ran allweddol mewn pennu safonau ar gyfer y gweithlu addysg a monitro'r safonau hynny. Bydd y swyddogaethau'n cael eu cyflwyno'n raddol, a hynny pan fydd y Gweinidog o'r farn bod y corff yn barod i'w hysgwyddo. Gallai'r swyddogaethau gynnwys cymeradwyo cyrsiau hyfforddiant cychwynnol i athrawon, y gofynion ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus a gosod safonau proffesiynol.
4. Y dylai'r rheini sy'n cofrestru gyda'r corff dalu ffi i gofrestru. Rydyn ni'n awyddus i osgoi strwythur cymhleth o ffioedd a fyddai'n gostus i'w gweinyddu, ond rydyn ni'n fodlon ystyried cyfres gyfyngedig o ffioedd amrywiol, os gellid eu cyfiawnhau'n briodol.
5. Ein bod ni hefyd, law yn llaw â'r newidiadau hyn, yn ystyried y gwahaniaethau yn y gofynion ar gyfer cymwysterau, safonau proffesiynol, rheoli perfformiad a datblygiad proffesiynol, ac yn ystyried a allai mwy o gydlyniant ar draws y materion hyn helpu ein hymgyrch i wella safonau.
6. Y dylem geisio pwerau eang yn y Bil Addysg arfaethedig er mwyn i'r newidiadau hyn ddod i rym.